# Y Pwyllgor Cyllid

## FIN(3) 09-08

**Dyddiad: Dydd Iau 12 Mehefin 2008**
**Amser: 9.30 – 10.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

FIN(3) 09-08 (p1) Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru)

# Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

MESUR gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch hybu bwyta'n iach mewn ysgolion yng Nghymru; ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â hynny.

**Mae'r Mesur hwn, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [ ] ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar [ ], yn deddfu'r darpariaethau canlynol:-**

## 1 Dyletswyddau mewn perthynas â hybu bwyta'n iach mewn ysgolion

(1) Rhaid i bob awdurdod y cyfeirir ato yn is-adran (2) arfer ei swyddogaethau er mwyn hybu bwyta'n iach gan ddisgyblion cofrestredig ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol yng Nghymru tra bydd y disgyblion hynny yn yr ysgol neu tra byddant yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd sy'n atodol i'w haddysg ac a drefnir gan neu ar ran pennaeth yr ysgol honno neu gan yr awdurdod addysg lleol.

(2) Yr awdurdodau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yw—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) unrhyw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

(c) corff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru; a

(d) pennaeth unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru.

(3) Er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1) rhaid i awdurdod—

(a) roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon;

(b) roi sylw i unrhyw gyngor gwyddonol cyfrifol sy'n berthnasol, boed wedi'i gyhoeddi ynteu wedi'i gomisiynu gan yr awdurdod at y diben; a

(c) yn achos yr awdurdodau y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(c) a (d)—

(i) ymgynghori o bryd i'w gilydd â chyngor ysgol unrhyw ysgol berthnasol ar y cwestiwn o sut y dylai'r awdurdod gyflawni'r ddyletswydd honno orau; a

(ii) rhoi sylw i unrhyw farn y bydd y cyfryw gyngor ysgol yn ei mynegi ar unrhyw bryd mewn perthynas â'r mater hwnnw.

(4) Nid oes dim yn yr adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod orfodi unrhyw gyfyngiad o ran natur, ansawdd neu faint y bwyd neu'r ddiod y deuir â hwy gan ddisgybl i'w fwyta neu i'w hyfed gan y disgybl hwnnw ei hun i fangre ysgol neu i unrhyw fan lle mae unrhyw weithgaredd o'r math y cyfeirir ato yn is-adran (1) yn digwydd.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw penodol i'w dyletswydd o dan is-adran (1) wrth benderfynu a ddylid arfer eu pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 7 ac ym mha fodd i'w arfer.

## 2 Dyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru

Rhaid hefyd i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau ynglŷn â'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol er mwyn hybu bwyta'n iach.

## 3 Ystyr "bwyta'n iach"

Yn y Mesur hwn, ystyr "bwyta'n iach" yw bwyta (ac yfed) bwyd (a diod) y mae eu natur, eu hansawdd a'u maint—

(a) o les i iechyd y person sy'n ei fwyta neu'n ei hyfed;

(b) yn peidio â gwneud niwed i iechyd y person sy'n ei fwyta neu'n ei hyfed; ac

(c) yn peri cyn lleied o niwed ag y bo'n rhesymol bosibl i'r amgylchedd wrth gael eu cynhyrchu, eu prosesu a'u dosbarthu.

## 4 Cynnwys gwybodaeth ar hybu bwyta iach mewn adroddiadau llywodraethwyr

Diwygir adran 30 o Ddeddf 2002 drwy fewnosod, ar ôl is-adran (1)—

"(1A) Regulations specifying what matters are to be dealt with in a governors' report must require such a report to describe what steps have been taken to promote healthy eating in the school during the period to which the report relates and on the extent to which those steps appear to have been successful."

## 5 Swyddogaethau'r Prif Arolygydd Ysgolion

Diwygir adran 20 o Ddeddf 2005 drwy fewnosod, ar ôl paragraff (1)(f)—

"(g) the extent to which the duty imposed by section 1 of the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2008—

(i) is being complied with in relation to schools maintained by local education authorities in Wales; and

(ii) appears to have resulted in an increase in healthy eating in those schools.".

## 6 Adroddiadau gan Weinidogion Cymru

O leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr, rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron y Cynulliad a fydd yn nodi—

a) y camau a gymerwyd ganddynt yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol yng Nghymru;

(b) i ba raddau y mae'n ymddangos bod cynnydd wedi bod mewn bwyta'n iach yn yr ysgolion hynny;

(c) unrhyw wybodaeth y maent wedi'i chael gan y Prif Arolygydd Ysgolion o dan adran 20(1)(g) o Ddeddf 2005 yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato; a

(d) pan fônt wedi gofyn i'r Prif Arolygydd Ysgolion roi cyngor iddynt o dan adran 20(2)(a) o Ddeddf 2005 ar fater sy'n ymwneud ag i ba raddau y mae'r ddyletswydd o dan adran 1(1) yn cael ei chyflawni'n effeithiol, y cyngor y maent wedi'i gael gan y Prif Arolygydd yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato.

**7 Gofynion ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol ayyb.**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau y darperir ar eu cyfer gan y rheoliadau neu odanynt, mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) bwyd neu ddiod a ddarperir ar fangre unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru; neu

(b) bwyd neu ddiod a ddarperir mewn man heblaw mangre ysgol gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru neu gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan awdurdod o'r fath ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol.

(2) Rhaid i reoliadau a wneir o dan yr adran hon bennu, mewn unrhyw fodd ac yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a ddarperir gan y rheoliadau, uchafsymiau—

(a) braster;

(b) halen;

(c) siwgr; ac

(d) ychwanegion artiffisial;

y caniateir i'r bwyd neu'r ddiod y mae'r rheoliadau'n gymwys iddynt eu cynnwys.

(3) Yn benodol, caiff rheoliadau o dan yr adran hon—

(a) pennu safonau maethiad, neu ofynion eraill ynglŷn â maethiad, y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy;

(b) ei gwneud yn ofynnol i ddisgrifiadau penodedig o fwyd neu ddiod beidio â chael eu darparu.

(4) Nid yw gofynion a ragnodir yn rhinwedd is-adran (1)(a) yn gymwys i fwyd neu ddiod y deuir â hwy i fangre ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol pan ddeuir â'r bwyd neu'r ddiod i'r fangre honno gan unrhyw berson i'w fwyta neu i'w hyfed gan y person hwnnw ei hun.

(5) Pan fo awdurdod addysg lleol yng Nghymru neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan awdurdod o'r fath yn darparu bwyd neu ddiod—

(a) ar gyfer unrhyw un ar fangre'r ysgol; neu

(b) ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol mewn man heblaw mangre'r ysgol;

rhaid i'r awdurdod hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, rhaid i'r corff llywodraethu hwnnw sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ddarpariaethau yn y rheoliadau sy'n gymwys.

(6) Mae is-adran (5) yn gymwys p'un a ddarperir y bwyd neu'r ddiod yn unol ag unrhyw ofyniad statudol neu fel arall.

(7) Pan fo—

(a) bwyd neu ddiod yn cael eu darparu ar fangre ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

(b) y ddarpariaeth yn cael ei gwneud gan berson (“X”) heblaw’r awdurdod neu gorff llywodraethu’r ysgol; ac

(c) X yn defnyddio neu’n meddiannu’r cyfan neu ran o’r fangre o dan amgylchiadau sy’n gysylltiedig â chytundeb defnyddio neu feddiannu a wneir (boed gan X neu gan unrhyw berson arall) gyda’r awdurdod neu’r corff llywodraethu,

rhaid i’r awdurdod hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, rhaid i’r corff llywodraethu hwnnw sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ddarpariaethau yn y rheoliadau sy’n gymwys.

(8) Mae “cytundeb defnyddio neu feddiannu”, mewn perthynas â mangre ysgol, yn gytundeb neu’n drefniant arall sy’n ymwneud â defnyddio neu feddiannu’r cyfan neu unrhyw ran o’r fangre.

(9) Heb ragfarnu cyffredinolrwydd adran 13, caiff rheoliadau o dan yr adran hon ragnodi—

(a) gofynion gwahanol mewn perthynas â dosbarthiadau neu ddisgrifiadau gwahanol o ysgol fel y’u pennir yn y rheoliadau;

(b) gofynion gwahanol mewn cysylltiad â bwyd neu ddiod a ddarperir gan neu ar gyfer dosbarthiadau neu ddisgrifiadau gwahanol o berson fel y’u pennir yn y rheoliadau;

(c) gofynion sy’n gymwys yn ystod cyfnodau gwahanol o’r dydd fel y’u pennir yn y rheoliadau.

(10) Mae “man heblaw mangre’r ysgol” yn golygu man heblaw mangre unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol.

(11) Mae’r cyfeiriadau yn yr adran hon at fwyd neu ddiod a ddarperir gan awdurdod addysg lleol neu gorff llywodraethu ysgol yn cynnwys cyfeiriadau at fwyd neu ddiod a ddarperir yn unol â chytundeb neu drefniant arall a wneir gan awdurdod neu gorff o’r fath ar gyfer darparu bwyd neu ddiod.

(12) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon

(a) gymryd camau i ganfod barn disgyblion ar y darpariaethau y bwriedir eu gwneud gan y rheoliadau; a

(b) ymgynghori ag unrhyw rai eraill y maent yn teimlo ei bod hi’n briodol ymgynghori â hwy.

**8 Dŵr yfed mewn ysgolion**

(1) Rhaid i awdurdod addysg yng Nghymru sicrhau bod cyflenwad o ddŵr yfed ar gael, yn rhad ac am ddim, ym mangre unrhyw ysgol y mae’n ei chynnal.

(2) Pan fydd awdurdod addysg lleol yn penderfynu sut y gall gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1) orau, rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan yr is-adran hon.

## 9 Hybu prydau mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill

(1) Rhaid i awdurdod addysg lleol yng Nghymru—

(a) hybu argaeledd prydau ysgol mewn ysgolion y mae'n eu cynnal ac mewn sefydliadau addysgol eraill sydd o dan ei reolaeth; ac

(b) annog disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion a'r sefydliadau addysgol eraill hynny i fwyta prydau ysgol.

(2) Yn benodol, rhaid i awdurdod addysg lleol yng Nghymru gymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob disgybl y mae ganddo hawl i gael cinio ysgol am ddim yn cael y cinio hwnnw.

## 10 Diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim

Ar ôl adran 512A o Ddeddf 1996 mewnosoder—

**"512B Protection of identity of pupils receiving free school lunches**

(1) This section applies when a school lunch is provided for a pupil in Wales free of charge by virtue of section 512ZB.

(2) A local education authority in Wales must take reasonable steps to ensure that the pupil cannot be identified as a pupil who receives a school lunch free of charge by any person other than an authorised person.

(3) A local education authority in Wales must take reasonable steps to ensure that none of the persons mentioned in subsection (4) discloses to any person other than an authorised person the fact that the pupil receives school lunches free of charge.

(4) The persons referred to in subsection (3) are—

(a) a teacher in the school;

(b) any person (other than a teacher) who is—

(i) employed (whether by the local education authority or by another person) in the school, or

(ii) working there on an unpaid basis; and

(c) any other person employed by the local education authority.

(5) In subsections (2) and (3), "authorised person" means—

(a) a parent of the pupil; and

(b) a person mentioned in subsection (4) who is authorised by the local education authority to have access to information about a pupil's entitlement to receive school lunches free of charge."

(6) When deciding what steps to take in order to comply with their duties under subsections (2) and (3) a local education authority in Wales must

have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers under this section."

**11 Diwygiadau canlyniadol**

Diwygir adran 114A o Ddeddf 1998 trwy fewnosoder, ar ôl is-adran (10)—

"(11) This section does not apply in relation to Wales.".

**12 Arbediad**

Mae unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 114A o Ddeddf 1998 gan y Cynulliad a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu gan Weinidogion Cymru neu sy'n effeithiol fel pe baent wedi'u gwneud o dan yr adran honno ac sy'n effeithiol yn union cyn i'r adran hon gychwyn yn effeithiol o ran Cymru ar ôl iddi gychwyn fel pe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 7 o'r Mesur hwn.

**13 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Mae unrhyw bŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau a roddir gan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(b) i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol; ac

(c) i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth arbed neu ddarpariaeth drosiannol y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(3) Caniateir i unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchmynion o dan y Mesur hwn (yn ogystal â bod yn arferadwy mewn perthynas â'r holl achosion y mae'n gymwys iddynt) gael ei arfer mewn perthynas â'r holl achosion hynny yn ddarostyngedig i eithriadau neu mewn perthynas ag unrhyw achos penodol neu ddosbarth penodol o achosion.

(4) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (5) a (6) mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn agored i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

(5) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 14 sy'n diwygio neu'n dirymu unrhyw ran o destun Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron y Cynulliad, ac wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

(6) Nid yw is-adran (4) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 16(3) yn unig.

## 14 Pŵer i wneud darpariaethau pellach sy'n atodol neu'n ganlyniadol ayyb.

(1) Ar unrhyw adeg, drwy reoliadau, caiff Gweinidogion Cymru wneud—

(a) unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol; ac

(b) unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed;

y maent yn credu ei bod yn angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn, o ganlyniad iddi, neu i roi ei heffaith lawn iddi.

(2) Yn benodol, caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth—

(a) i ddiwygio neu i ddiddymu unrhyw ddeddfiad a basiwyd cyn y Mesur hwn, neu yn ystod yr un flwyddyn Gynulliad ag ef; a

(b) i ddiwygio neu i ddirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978 (p.30)) a wnaed cyn i'r Mesur hwn gael ei basio.

## 15 Dehongli

Yn y Mesur hwn—

mae "bwyta'n iach" wedi'i ddiffinio yn adran 3;

ystyr "y Cynulliad" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" yw Deddf Addysg 1996 (p.56);

ystyr "Deddf 1998" yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31);

ystyr "Deddf 2002" yw Deddf Addysg 2002 (p.32); ac

ystyr "Deddf 2005" yw Deddf Addysg 2005 (p.18).

## 16 Enw byr a chychwyn

(1) Enw'r Mesur hwn yw Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 200-.

(2) Daw'r adran hon i rym ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

(3) Daw darpariaethau eraill y Mesur hwn i rym ar unrhyw ddydd neu ddyddiau a benodir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.